

RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cynghorydd Heledd Fychan isod ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben Mai 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Heledd Fychan

Ardal etholiadol: Tref Pontypridd

Grŵp Gwleidyddol: Plaid Cymru

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Aelod Llawn o'r Cyngor

Aelod o'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc

Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James ac Ysgol Gynradd Coed-y-lan

Cadeirydd Cyfeillion Canolfan Gelf y Miwni

Cadeirydd Cynllun Gwarchod Cymdogaeth Graigwen Isaf

Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth

Yn fuan ar ôl cael fy ethol, cynhaliais arolwg drwy gylchlythyr a gafodd ei ddsbarthu i bob tŷ yn fy etholaeth. Mae'r canlyniadau wedi llywio fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd, ac wedi helpu i flaenoriaethu'r gwaith sydd ei angen. Rydw i wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i drigolion ar y cynnydd mewn cylchlythyrion chwarterol a thudalen Facebook - Heledd Fychan Pontypridd - ac rydw i wedi sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli ar amrywiaeth o bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys y Cabinet. Gweithgareddau allweddol:

- Ymatebodd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Ail-ddatblygu Dyffryn Taf, a siaradodd yn y Pwyllgor Cynllunio pan gafodd ei drafod. Sicrhodd bod pryderon trigolion yn cael eu nodi. Gwnaeth sylwadau yn argymhell rhagor o gyd-weithio wrth gynllunio ar gyfer dyfodol Pontypridd a thynnodd sylw at yr angen brys i ail-feddwl parcio a'r llwybrau bysiau yn y dref, gan gynnwys i Graigwen. Mae hyn yn parhau i fod yn ymgyrch weithredol.
- Lansiodd ddeiseb pan gaeodd y Swyddfa Bost yng Nghanol y Dref, ac ymgyrchodd yn llwyddiannus i'w hailagor.
- Siaradodd yn y Pwyllgor Cynllunio i wrthwynebu ail-ddatblygu cyn adeilad M&S, ar y sail nad oes digon o leoedd parcio a byddai rhagor o geir yn defnyddio'r llwybr sy'n arwain at Barc Coffa Ynysangharad.
- Cefnogodd drigolion i wrthwynebu dymchwel bloc gwaith coed cyn Ysgol Uwchradd Coedylan. Arweiniodd hyn at y pwyllgor cynllunio yn gwrthod rhoi caniatâd i ddymchwel.
- Cefnogodd drigolion gyda gwaith achos. Roedd hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â goleuadau stryd, ceudyllau, cŵn yn baeddu, llygredd sŵn, palmentydd wedi torri, cymdogion sy'n achosi problemau, glendid y strydoedd, gordyfiant, treth y cyngor.
- Sicrhodd bod dau faes chwarae'n cael eu hadnewyddu.

- Sicrhaodd ymrwymiad i godi arwyddion slow/araf ar y troad siâp-S yn Graigwen uchaf.
- Gweithiodd gyda'r heddlu lleol i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn y ward.

Fel yr addawodd holl ymgeiswyr Plaid Cymru yn ystod yr ymgyrch etholiadol, rydw i wedi gwneud rhoddion sy'n cyfateb i doriad 5% gwirfoddol yn fy lwfans blynyddol trwy gydol y flwyddyn i fudiadau gwirfoddol ac elusennol lleol i gynorthwyo yn eu gwaith.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Clwb Ieuentid Parc Coffa Ynysangharad: Roeddwn i'n llwyddianus yn sefydlu clwb ieuentid wythnosol yn nhref Pontypridd, gyda'r gobaiith y bydd hyn yn cael ei ehangu. Ymgynghorais â phobl ifainc yn uniongyrchol, a gwnes i sylwadau i'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod yr ymgyrch yma'n cael ei chefnogi.

Darpariaeth ar gyfer y rhai Dros 50 oed yng Nghanolfan Gelf y Miwni. Llwyddais i gael arian ar gyfer y fenter yma. Ar hyn o bryd rydw i'n datblygu cynlluniau i ehangu a thyfu'r gwasanaeth.

Cynhyrchion Glanweithiol am Ddim mewn Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf: Roeddwn i'n aelod gweithgar o'r gweithgor a wnaeth waith ymchwil ac a ysgrifennodd yr adroddiad sydd wedi arwain at y datblygiad arloesol yma. Cafodd y datblygiad yma ei gychwyn gan y Cynghorydd Plaid Cymru dros Ystrad, Elyn Stephens.

Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn Graigwen Isaf: Rhoddais gefnogaeth i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol a'r trigolion i sefydlu Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Mae hyn wedi cynnwys codi arian a recriwtio cynrychiolwyr stryd. Erbyn hyn, fi yw Cadeirydd y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Rydw i hefyd yn cefnogi gwaith y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn Graigwen Uchaf ac rydw i'n mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda' i Gilydd a chyfarfod gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Mynychais yr holl hyfforddiant oedd ar gael i Gynghorwyr newydd.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Cysgodais Fugeiliaid y Stryd ar nos Sadwrn brysur ym Mhontypridd tan oriau mân y bore. Roedd hwn yn gipolwg diddorol ar eu gwaith, a sut maen nhw'n cefnogi'r heddlu lleol ac yn diogelu'r rhai sydd allan ym Mhontypridd yn ystod y nos.

Rydw i wedi cyfarfod â nifer o grwpiau cymunedol a busnesau, ac wedi cefnogi nifer o grwpiau cymunedol a mynychu achlysuron yn y dref. Roedd hyn yn cynnwys gosod torch fel rhan o Ddydd y Cofio

Llofnod y Cynghorydd:

Heledd Fychan

Dyddiad: Mai 2018